

# Rhan 1 Ar gyfer disgyblion oed 5-7

## Gweithgaredd 1 Stori'r Sudd Oren



**Gweler y  
CD  
ADNODDAU  
ar gyfer  
cardiau lluniau**

**Nod:** I ddechrau deall cyd-ddibyniaeth pobl ar hyd a lled y byd drwy archwilio'r modd y tyfir a phrosesir bwyd. **Amser:** 1 awr. **Oedran:** 5-7. **Yr hyn sydd ei angen arnoch:** Amrywiaeth o orennau; Dilyniant o luniau Stori'r Sudd Oren (ar y CD, ar gyfer yr athro); carton o sudd oren a map o'r byd (ar gyfer gweithgareddau gwaith cartref/ymestyn yn unig).

### Nodiadau i athrawon

Mae'r gweithgaredd hwn yn helpu disgyblion i ddeall egwyddorion sylfaenol masnach fyd-eang. Diben hyn yw archwilio o ble mae eitem bob dydd yn dod a sut mae'n ein cyrraedd, gan annog disgyblion i wneud cysylltiadau rhwng eu bywydau eu hunain a bywydau pobl eraill o gwmpas y byd. Mae hefyd yn creu dealltwriaeth well o'r gadwyn cyflenwi cynnyrch ac yn fan cychwyn da ar gyfer ystyried Masnach Deg fel mater hawliau dynol.

### Beth i'w wneud

Gofynnwch i'r plant beth gawsant i'w fwyta neithiwr i swper neu i frecwast y bore heddiw. Sut gyrhaeddodd y bwyd eu plât? O ble ddaeth y cyfan? Beth oedd y prosesau a oedd yn rhan o dyfu'r bwyd, ei symud a'i baratoi? Pwy wnaeth y gwaith?

Nawr gofynnwch i'r plant dynnu croen yr orenau ddaethoch gyda chi i'r dosbarth, rhannwch yr oren, ei flas a gwasgu'r sudd allan ohono – efallai defnyddio peiriant i greu sudd neu i wasgu ffrwyth.

### Trafodaeth

Nesaf, gofynnwch i'r dosbarth:

- O ble mae'r orenau'n dod?
- Sut gyrhaeddodd yr orenau yma?
- Faint o ddwylo oedd eu hangen i dyfu'r oren, ei ddyfrhau, ei gynaeafu, glanhau, pilio a gwasgu'r oren mewn i gartonau, ei gludo a'r werthu cyn i'r sudd gyrraedd eich bwrdd bwyd chi?

### Cardiau lluniau

Esboniwch i'r dosbarth y byddant yn awr yn adrodd ac yn actio hanes gwydraid o sudd oren – sef y gadwyn gyflenwi a'r gwahanol ddwylo, gamau a phrosesau mae'n mynd trwyddynt o blannu i yfed. Gwasgarwch a chymysgwch gardiau lluniau *Stori'r Sudd Oren* ar hap ar draws y bwrdd. Gofynnwch i'r plant geisio gosod y cardiau yn eu trefn. Gwiriwch eu bod yn iawn (neu aildrefnwch y cardiau) drwy ddefnyddio Dilyniant o luniau Stori'r Sudd Oren ac wedyn adroddwch *Stori'r Sudd Oren* gan ddefnyddio'r lluniau.

Rhannwch y dosbarth yn barau, a rhowch gerdyn llun *Stori'r Sudd Oren* i bob un ohonynt. Mae'n rhaid iddynt:

- weithio allan ystyr eu llun hwy a sut i'w esbonio mewn ychydig o eiriau;
- cynllunio meim gan ddefnyddio eu dwylo i ddangos gweithgaredd y gweithiwr neu'r peiriant yn y llun.

Dewch â'r plant at ei gilydd i eistedd mewn cylch. Yn eu tro, gofynnwch i bob pâr sefyll i fyny, dangos eu llun. Adrodd eu rhan hwy o'r stori ac actio eu meim dwylo.

### I guriad rhythm

Gwnewch y broses hon unwaith yn rhagor – ond i guriad y tro hwn. Rhaid i bawb guro eu dwylo ac wedyn curo eu cluniau dair gwaith mewn rhythm. Mae'r pâr cyntaf yn sefyll i fyny, yn dangos eu llun, yn adrodd eu geiriau ac yn actio eu meim. Wedyn mae plant eraill yn dynwared y meim hwn, ac mae'r curo'r curiad yn ailgychwyn. Mae'r pâr nesaf yn sefyll i fyny, ac felly ymlaen yr holl ffordd o amgylch y cylch. Mae'n bosibl ailadrodd y dangosiad hwn yn y gwasanaeth.

### Trafodaeth

- Gofynnwch i'r disgyblion ydynt yn meddwl bod pawb yn y stori yn cael eu trin yn deg ac yn derbyn cyflog teg?
- Gofynnwch i'r disgyblion ydynt yn gwybod ystyr 'Masnach Deg'?
- Beth all disgyblion ei wneud i drïo gwneud yn siwr bod pawb yn y byd yn derbyn cyflog teg?

### Gwaith cartref/ymestyn

- Gofynnwch i ddisgyblion hy'n olrhain taith y sudd oren ar fap o'r byd. Mae'r mwyafrif o orenau'n dod o Frasil, Unol Dalieithau America, China, Sbaen, Mecsico, India ac Israel.
- Gallai disgyblion drïo darganfod a ddefnyddir cynnyrch Masnach Deg yn eu hysgol.

**Ffynhonnell:** Addaswyd o *LIFT OFF, The Right Start*, Ble mae fy nghinio i?